

C(5)042 – Gorchymyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Cychwyn) 2020

Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (y Ddeddf) ac Atodlen 2 iddi, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol, i rym yn llawn ar 1 Hydref 2020.

Gweithdrefn

Dim gweithdrefn – nid yw'n ofynnol gosod y Gorchymyn gerbron y Senedd.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwn ddarpariaethau'r Ddeddf a gychwynwyd gan y Gorchymyn hwn, a'r diweddariad a ddarparwyd gan y Prif Weinidog mewn [llythyr](#) at y Llywydd dyddiedig 28 Medi 2020, yn benodol:

Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes gychwyn gwaith i weithredu'r darpariaethau yn adran 28 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac Atodlen 2 iddi sy'n ymwneud ag ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol.

Nodais y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Gorchymyn i ddod â'r darpariaethau hynny i rym, yn amodol ar gwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau Sefydlog, sefydlu Pwyllgor y Llywydd, a negodi cytundeb ariannu rhyng-sefydliadol.

Gan fod cynnydd digonol wedi'i wneud o ran y gwaith hwnnw, credaf fod yr amodau a nodais yn cael eu bodloni. Felly, mae'n bleser gennyf gadarnhau y byddaf yn dod â'r darpariaethau perthnasol i rym ar 1 Hydref.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7 Hydref 2020

